**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0774/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Medi 2015

Annwyl David

**Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Fe gofiwch, yn ystod y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 14 Gorffennaf, imi gadarnhau y byddwn yn darparu ymateb manwl i adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor a'r 46 argymhelliad ynddo. Er nad oes gofyniad llym i ddarparu ymateb i bob un o'r argymhellion, roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig eu hateb dan yr un penawdau â'r rhai a ddarparwyd yn eich adroddiad chi er mwyn eich helpu i ddeall yr ystyriaeth yr wyf wedi'i rhoi iddynt. Mae fy ymateb manwl wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gan fy mod yn ymwybodol ei bod hi wedi darparu ymateb ei Phwyllgor hi i'w gynnwys yn eich adroddiad chi.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Argymhellion o Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei gefnogaeth i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac am graffu'n fanwl ar ei ddarpariaethau. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod bod y Bil hwn yn cymryd camau cadarnhaol i ddarparu atebolrwydd, tryloywder a sefydlogrwydd y mae eu dirfawr angen ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwy'n dawelach fy meddwl o weld bod y Pwyllgor wedi cydnabod a chroesawu nifer o'n cynigion gan gynnwys y rhai ar gyfer unigolyn cyfrifol ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad.

Rwy'n croesawu'r mwyafrif llethol o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a cheir manylion pellach mewn ymateb i bob argymhelliad isod.

**<u>Yr Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth</u>**

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil.

O ran **argymhelliad 2**, bydd y Pwyllgor yn deall bod Prif Weinidog Cymru wedi dynodi y bydd yn darparu ymateb i Adolygiad Flynn yn ddiweddarach y mis hwn. Bydd yr ymateb hwnnw'n ymdrin â'r ymatebion polisi allweddol i adolygiad Dr Flynn, a byddaf felly'n gallu darparu manylion pellach wedi hynny. O ran y Bil hwn, bydd y pwyllgor yn ymwybodol o sylwadau Dr Flynn yng Nghrynodeb Gweithredol ei hadroddiad, lle cydnabu'r deialog parhaus a gafwyd wrth ddatblygu'r Bil. Nododd fod y deialog wedi gwneud y canlynol

*'considered how emergent findings might be reflected: by ensuring that those who own and gain from the provision of services, that is, Board members, are held accountable; by allowing regulators to take action against a corporate body rather than a single service; and by ensuring that information about services providing care and support is accessible to individuals receiving care and to their families'*

Yn fy marn i, caiff y tri chanfyddiad blaenoriaethol yma'u hadlewyrchu'n gryf o fewn y Bil hwn. Er enghraifft, mae'r gofynion newydd o ran Unigolion Cyfrifol yn ddull newydd arwyddocaol o sicrhau atebolrwydd darparwyr yn ein sector. Bydd y newid i fodel gwasanaeth yn galluogi'r corff rheoleiddio i weithredu ar gyfres o lefelau. Bydd y gofynion newydd o ran cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn gweddnewid yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am wasanaethau gofal yng Nghymru.

Hefyd, nododd Dr Flynn yr hyn yr oedd hi'n ei ddisgrifio fel rhestr 'uchelgeisiol' o syniadau o ran y gyfundrefn reoleiddio newydd. Bydd y rhain yn gwneud cyfraniad pwysig i'r broses o weithredu'r Bil ac i'r rheoliadau a fydd yn deillio o'r Bil. Byddaf yn sicrhau y bydd y grwpiau technegol y byddwn yn eu sefydlu i lunio rheoliadau'n ystyried sut y gellid datblygu'r syniadau hyn.

Fodd bynnag, ar ôl darllen adroddiad Dr Flynn ac ystyried ei syniadau rwyf wedi penderfynu ceisio gwella'r Bil mewn un ffordd bwysig iawn. Byddaf yn cynnig gwelliant ar wyneb y Bil sy'n sefydlu mewn deddfwriaeth sylfaenol y meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i ganfod a yw rhywun yn addas i gofrestru i ddarparu gwasanaethau yn ein sector.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i **argymhelliad 3** fel atodiadau wrth y llythyr hwn.

Rwyf wedi ceisio cyngor pellach mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid ynghylch gwella'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r holl rai hynny sy'n arfer swyddogaethau dan y Bil roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Hawliau Pobl Anabl ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (**argymhelliad 4**). Yn seiliedig ar y cyngor hwn rwyf wedi fy argyhoeddi nad oes angen gwelliant o'r fath ac rwy'n **gwrthod** yr argymhelliad hwn. Y ffordd orau o amddiffyn hawliau unigolion agored i niwed yn fy marn i yw trwy greu fframwaith rheoleiddio sy'n sicrhau bod swyddogaethau priodol ar gael i gyrff rheoleiddio er mwyn iddynt allu hybu a chynnal safonau uchel o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a, lle y bo angen, ymyrryd i ddiogelu unigolion agored i niwed rhag unrhyw niwed. Mae'r Bil yn creu'r fframwaith hwn yn fy marn i. Mae'r Bil yn mabwysiadu dull sydd wedi'i fwriadu i sicrhau bod buddiannau unigolion agored i niwed yn cael eu gwarchod; bydd hyn yn digwydd trwy osod dyletswyddau manwl ar ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, a rhoi pwerau wedi'u teilwra i gyrff rheoleiddio a sefydlwyd at ddibenion diogelu buddiannau pobl agored i niwed. Mae'r Confensiynau a'r Egwyddorion yn berthnasol o ran goleuo'r broses o ddatblygu polisi gan Lywodraeth Cymru ac rwy'n ffyddiog bod y system reoleiddio a gaiff ei chreu gan y Bil wedi cael ei goleuo gan y Confensiynau a'r Egwyddorion hynny. Hoffwn ailddatgan yr hyn a ddwedais wrth y Pwyllgor pan roddais dystiolaeth, sef os yw'r Pwyllgor o'r farn bod bylchau neu wendidau yn y systemau rheoleiddio a gaiff eu sefydlu gan y Bil y gellid eu datrys trwy gyflwyno gwelliannau i'r Bil, y byddwn yn fodlon ystyried y rhain ymhellach.

Gan droi at **argymhelliad 5**, rwy'n hapus i **dderbyn** hwn yn rhannol a diolchaf i'r Pwyllgor a rhanddeiliaid am ddwyn y mater hwn i'm sylw. Eto, rwyf wedi ceisio cyngor pellach mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, ac rwyf o'r farn ei bod yn anorfod y bydd yr orfodaeth i ddarparu manylion yn yr adroddiad blynyddol ynghylch dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cynnwys yr egwyddorion yn y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl. Fodd bynnag, byddaf yn cyflwyno gwelliant i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn adrodd ar ddyletswyddau dan Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn ei hadroddiad blynyddol.

**<u>Ymgysylltu â'r Cyhoedd</u>**

Roedd yn dda iawn gennyf weld bod y dyletswyddau i ymgysylltu â'r cyhoedd o fewn y Bil yn cael eu cydnabod gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid. Rwyf wedi fy argyhoeddi bod y Bil fel y mae'n sefyll yn nodi'n eglur iawn ddisgwyliad Llywodraeth Cymru bod yn rhaid i AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) weithio'n agos gyda dinasyddion wrth wneud eu gwaith. Fodd bynnag, gan gydnabod y farn a fynegwyd gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid rwy'n hapus i ddarparu mwy o fanylion am y disgwyliadau hynny mewn ymateb i **argymhelliad 6 isod**. Rwy'n credu'n gryf iawn na ddylai'r union ffyrdd y dylid cynnwys y cyhoedd yng ngwaith AGGCC a GCC gael eu rhagnodi gan y Llywodraeth ond y dylent gael eu datblygu ar y cyd â'r sector, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Er fy mod yn dal heb fy argyhoeddi ynghylch yr angen i nodi'r gofyniad i AGGCC ddefnyddio arolygwyr lleyg, rwyf yn sicr o'r farn y dylai'r cyhoedd chwarae rhan weithredol yn y broses arolygu. Byddaf yn cyflwyno gwelliant i sicrhau y cwrddir â'r disgwyliad hwn. Gan hynny rwy'n **derbyn argymhelliad 7** ac yn **derbyn argymhelliad 9 yn rhannol** yn yr ystyr y bydd y gwelliant yn ymwneud â gofyniad cyffredinol yn hytrach na gofyniad penodol.

Mae AGGCC wedi cymryd camau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i wella'r modd y mae'n ymgysylltu â defnyddwyr, gofalwyr a dinasyddion ac yn eu cynnwys. Byddwn yn disgwyl i'r datblygiad hwn barhau. Gall y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a'i bresenoldeb rhanbarthol sydd wrthi'n datblygu barhau i ddarparu llais ar gyfer dinasyddion a chynnal trosolwg ar waith AGGCC a darparu her o ran y gwaith hwnnw. Y tu hwnt i hyn byddaf yn disgwyl i AGGCC ddatblygu cysylltiadau cymunedol cryf er mwyn sicrhau bod y rhai sydd agosaf at y gofal yn gallu goleuo a threfnu ei gwaith. Rwy'n disgwyl i AGGCC ystyried y safbwyntiau ehangach pwysig y gall y rhai sy'n rhan o'r sector, a'r rhai nad ydynt yn rhan ohono, eu cynnig. O ran GCC, credaf yn gryf y dylai'r broses o gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy fynd y tu hwnt i bresenoldeb ei fwrdd dan arweiniad lleygwyr a'r gofynion o ran proses dan arweiniad lleygwyr y mae'r Bil hwn yn eu sefydlu ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu. Gyda'i rôl o ran arwain gwelliant yn ein sector, mae'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru fod yn esiampl o ran sut y gall y broses o ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r canlyniadau ar gyfer pobl yng Nghymru.

Rwy'n hapus i **dderbyn argymhelliad 8** ac yn cytuno y gallai'r Bil gael ei gryfhau mewn perthynas â gofalwyr mewn rhai adrannau a byddaf yn cyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw.

**<u>Atebolrwydd a Thryloywder</u>**

Rwy'n **derbyn argymhelliad 10** mewn egwyddor; rwyf wedi egluro fy mwriad i weithio gyda'r sector i ddatblygu'r rheoliadau hyn a hefyd fy mwriad i ymgynghori ynghylch y rheoliadau hyn cyn eu cyflwyno. Fodd bynnag, i ychwanegu eglurder, byddaf yn cyflwyno gwelliant a fydd yn darparu mwy o fanylion ynghylch cynnwys y datganiad blynyddol ar wyneb y Bil. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliant a fydd yn nodi bod yn rhaid i'r set gyntaf o reoliadau a gaiff ei drafftio mewn perthynas â datganiadau blynyddol ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Yn **argymhelliad 11** mae'r pwyllgor wedi gofyn am amlinelliad i ddynodi sut y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud ag Unigolion Cyfrifol yn gymwys i sefydliadau ar lefel y Deyrnas Unedig neu sefydliadau amlwladol sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gofynion ar gyfer Unigolyn Cyfrifol yn rhan ganolog o'r Bil hwn; maent yn cadarnhau'r cyswllt rhwng y rheng flaen ac Ystafell y Bwrdd. Gan hynny, er bod peth hyblygrwydd yn y system yn hanfodol mae'n rhaid cadw'r rhagosodiad sylfaenol ar gyfer y ddarpariaeth hon h.y. bod yn rhaid i'r rhai sy'n elwa o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn bennaf gyfrifol ac atebol am ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir. Wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn mae'n amlwg bod yn rhaid i'r darpariaethau o ran Unigolyn Cyfrifol yn adran 19 o'r Bil fod yn gymwys i sefydliadau mawr yn yr un ffordd yn union ag i sefydliadau llai.

Mae atal unigolion anaddas rhag darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru yn un o'r agweddau sylfaenol ar y Bil yma. Rwyf wedi penderfynu, yn dilyn Adolygiad Flynn, bod hon yn agwedd ar y Bil sy'n cynnig cyfle amlwg i gryfhau ein cyfundrefn reoleiddio trwy fod yn gwbl glir o ran pwy all a phwy na all gofrestru i ddarparu gwasanaethau. Rwyf felly'n **derbyn argymhelliad 12 mewn egwyddor** gan y gellid ychwanegu mwy o eglurder ar wyneb y Bil o ran y prawf person addas a phriodol y mae'n rhaid ei fodloni cyn y caniateir i ddarparwr gofrestru i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Byddaf yn cynnig gwelliant i'r perwyl hwnnw.

Yn fy llythyr blaenorol at y Pwyllgor fe nodais fy mwriad i ddefnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 26 a 27 o'r Bil, a'r pwerau i ddyroddi canllawiau a nodir yn adran 28 o'r Bil, i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a/neu Unigolion Cyfrifol fod â pholisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer chwythu'r chwiban. Ar y sail hon rwy'n **gwrthod argymhelliad 13** gan fy mod yn gyndyn o gyflwyno gwelliant o'r natur hon. Mae ystod o ofynion pwysig iawn eraill y gellid drafftio rheoliadau a chanllawiau arnynt gan ddefnyddio'r pwerau yn adrannau 26, 27 a 28 o'r Bil, ac nid oes bwriad i restru unrhyw un o'r rhain ar wyneb y Bil. Gallai rhestr ddangosol gael ei dehongli fel rhestr gynhwysfawr, gan gyfyngu o bosibl ar y meysydd y gellid cyflwyno rheoliadau a chanllawiau ynddynt. Mae'r pwerau yn adrannau 26 a 27 yn eang ac wedi'u bwriadu i fod felly. Dyna pam fod y weithdrefn gadarnhaol wedi cael ei phriodoli i'r pwerau hyn fel y bydd gan y Cynulliad y cyfle i graffu ar yr angen am bob un o'r gofynion a'u priodoldeb.

Rwy'n nodi **argymhelliad 14** gan y Pwyllgor ac yn **derbyn** hwn ar y sail y byddaf yn adolygu adrannau 19, 21 a 24 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gyson.

**<u>Gwasanaethau Rheoleiddiedig</u>**

Mae **argymhelliad 15** yn cyfeirio at osod gwasanaethau eirioli fel gwasanaeth rheoleiddiedig ar wyneb y Bil. Fe drafodon ni'r mater hwn yn y Pwyllgor ac rwyf wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nid yw fy marn wedi newid o'r un a fynegais yn flaenorol. Er bod gwasanaethau eirioli ar gyfer plant wedi hen ennill eu plwyf nid yw'n fwriad gennyf ddefnyddio dull tameidiog ond yn hytrach rwy'n bwriadu dod â'r holl wasanaethau eirioli o fewn y gyfundrefn reoleiddio ar yr un pryd, unwaith y bydd trafodaethau llawn a phriodol wedi cael eu cynnal gyda'r sector cyfan. Fodd bynnag, er fy mod yn **gwrthod** y gwelliant hwn rwy'n hapus i ailddatgan fy ymrwymiad mai eiriolaeth fydd y gwasanaeth cyntaf i ddod yn wasanaeth rheoleiddiedig newydd yn y gyfres berthnasol gyntaf o reoliadau a gaiff eu gwneud dan adran 2(h) o'r Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am fwy o fanylion yn **argymhelliad 16** sy'n nodi sut y byddaf yn monitro ac yn asesu a ddylai'r gofyniad i gofrestru gael ei ymestyn i wasanaethau ataliol a modelau arloesol o gyflwyno gwasanaethau sy'n codi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn a gallaf hysbysu'r Pwyllgor y bydd y dyletswyddau perthnasol yn adran 15 o Ddeddf 2014 yn cael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2016. Unwaith y bydd y darpariaethau hynny wedi cael eu rhoi ar waith bydd yn cymryd amser i wasanaethau a modelau o'r fath ddod i'r amlwg. Yn ystod y cyfnod hwnnw byddaf yn cael diweddariadau a gwybodaeth gan AGGCC ac awdurdodau lleol eu hunain. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddaf yn parhau i gwrdd ag AGGCC yn rheolaidd ac i gael cyngor ynghylch ystod o faterion rheoleiddiol. Bydd disgwyliad parhaus bod AGGCC yn fy hysbysu ynghylch unrhyw newidiadau yn y sector y mae angen imi roi sylw iddynt gan gynnwys gwasanaethau newydd y mae angen eu rheoleiddio.

Mae **argymhelliad 17** yn ymwneud ag amlinellu'r trefniadau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod pontio tuag at fodel cofrestru sydd wedi'i seilio ar y gwasanaeth. Rwy'n hapus i **dderbyn** yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi gofyn i AGGCC gynnal ymarfer sy'n ystyried gwaith cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio gan gynnwys gofynion o ran hyfforddiant, lledaenu gwybodaeth a chyfleu negeseuon allweddol. Rwy'n rhagweld y gall y gwaith cynllunio hwn gynnwys sefydlu offer i gynorthwyo darparwyr yn ystod y cyfnod pontio megis llinell gymorth.

Cododd y Pwyllgor bryderon o ran sut y bydd y Bil yn sicrhau diwylliant o reoleiddio ac arolygu lle nad yw'r ffrydiau cefnogi a gwella yng ngwaith AGGCC yn cyfaddawdu'r broses o reoleiddio a gorfodi cadarn ac effeithiol a gofynnodd am fwy o fanylion am hyn yn **argymhelliad 18**, yr wyf yn ei **dderbyn**. Nid wyf yn meddwl bod gwrthdaro o'r natur a ddisgrifir ac mae adrannau 4 a 67 o'r Bil yn cyfeirio'n benodol at y ffaith mai hybu a chynnal safonau uchel yw rôl AGGCC a GCC. Mewn gwirionedd bydd y Bil, am y tro cyntaf, yn amodi bod ymlynu wrth safonau ansawdd yn ofyniad rheoleiddiol ac yn rhoi ystod o bwerau gorfodi cryfach i AGGCC yn ogystal â throseddau â chosbau cryfach. Y ffactorau hyn fydd yn sicrhau gweithgarwch rheoleiddio a gorfodi cadarn ac effeithiol a bydd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a lleygwyr yn darparu'r haen ychwanegol o waith craffu a ddisgrifiais yn y Pwyllgor.

**Diffinio 'Gofal'**

Mae'r Pwyllgor a rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw'r diffiniad o 'gofal' yn adran 3 o'r Bil yn cymryd i ystyriaeth y diffiniad o 'llesiant' yn Neddf 2014. Adlewyrchir hyn yn **argymhelliad 19** yr wyf yn ei **dderbyn** mewn egwyddor. Yn dilyn ystyried y mater hwn ymhellach rwy'n dal i fod o'r farn bod y gofynion rheoleiddiol a osodir gan adran 26 o'r Bil, sy'n cyfeirio'n benodol at y canlyniadau llesiant, yn sicrhau bod llesiant yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn y Bil, a bod y gydberthynas uniongyrchol â'r diffiniad o 'llesiant' rhwng y Bil a Deddf 2014 yn cael ei chyflawni gan adran 187. Gan hynny nid wyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil ei hun ond byddaf yn gwella'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Bil i wneud hyn yn fwy eglur. Byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r Nodiadau Esboniadol fel eu bod yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn yr ydym yn bwriadu i "gofal" a "cymorth" ei olygu, a bydd y rhain yn gyson â'r enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010 sy'n sefydlu cyfundrefn debyg.

Gan gyfeirio at **argymhellion 20 a 21** rwyf wedi myfyrio ymhellach ac mae'n dda gennyf ddweud fy mod yn **derbyn** y ddau argymhelliad ac y byddaf yn cyflwyno gwelliannau priodol.

**Arolygiadau**

Mae **argymhelliad 22**, yr wyf yn ei **dderbyn**, yn cyfeirio at roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am yr arolygiadau wedi'u seilio ar ganlyniadau a fydd yn cael eu cynnal gan AGGCC ac yn codi pryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer adnoddau a chapasiti yn dilyn cyflwyno system newydd. Roedd cynrychiolwyr o AGGCC a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn glir bod gwaith ar arolygiadau wedi'u seilio ar ganlyniadau eisoes wedi dechrau ac felly ni fydd hon yn system gwbl newydd iddynt hwy nac i ddarparwyr gwasanaethau. Yn amlwg bydd goblygiadau unwaith y bydd y system newydd yn gwbl weithredol ac rwy'n rhagweld y bydd hyn yn cael ei archwilio mewn llawer mwy o fanylder yn y gwaith ar y cyfnod pontio yr wyf wedi gofyn i AGGCC ei wneud. Unwaith y bydd yr wybodaeth honno ar gael byddaf yn hapus i wneud datganiad.

Rwy'n **derbyn argymhellion 23, 24 a 25** a byddaf yn cyflwyno gwelliannau perthnasol. O ran 23 a 25, byddaf yn sicrhau bod y gofyniad ar gyfer hyfforddiant priodol i arolygwyr yn cael ei gynnwys yn y cod perthnasol y mae'n rhaid ei baratoi yn unol ag adran 32 ac adran 161A. Rwyf hefyd yn **derbyn argymhelliad 26** ac yn cytuno ei bod yn hanfodol bod rheoliadau'n egluro'r hawliau a'r prosesau ar gyfer ail arolygiadau.

## Pŵer i Godi Ffioedd

Rwy'n nodi'r sylwadau gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid ond rwy'n teimlo ei bod yn glir dan adran 185 o'r Bil fel y'i drafftiwyd y bydd y rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud dan adran 38 mewn perthynas â chodi ffioedd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Felly nid wyf o blaid cyflwyno gwelliant i adran 38 i ychwanegu ei bod yn ofynnol cael datganiad ynghylch ymgynghori gan fod manylion y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am yr ymgynghori a wnaed wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cael ei osod ochr yn ochr â'r rheoliadau fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol sefydledig bresennol, a chan hynny rwy'n **gwrthod argymhelliad 27.**

## Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol

Rwy'n cydnabod sylwadau'r Pwyllgor a rhanddeiliaid ynghylch gwaith gan awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn cytuno'n llwyr bod arferion comisiynu effeithiol yn greiddiol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol rhagorol. Rwy'n cytuno bod lle i egluro rôl AGGCC yn y maes hwn ar wyneb y Bil ac felly rwy'n **derbyn argymhelliad 28** a byddaf yn cyflwyno gwelliant i gyflawni hyn yng nghyfnod 2. Nid wyf yn gallu ymestyn y gwelliant hwn i gynnwys byrddau iechyd lleol (BILlau) gan nad yw pwerau AGGCC dan y Bil hwn yn ymestyn i BILlau. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl y bydd dull comisiynu mwyfwy integredig yn cael ei ddefnyddio a byddaf yn amcanu at gynhyrchu canllawiau priodol.

## Sefydlogrwydd y Farchnad a Chynaliadwyedd Ariannol

Rwyf wedi myfyrio ar farn y Pwyllgor a barn rhanddeiliaid mewn perthynas ag **argymhellion 29, 30, 31 a 33** ac rwy'n hapus i **dderbyn** pob un o'r pedwar argymhelliad. Byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 62 o'r Bil i'w gwneud yn glir y dylid cynnwys dadansoddiad o waith comisiynu mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Ni allaf ddychmygu sefyllfa lle na fyddai ymgynghori'n digwydd cyn cyflwyno rheoliadau; fodd bynnag gan y teimlir bod angen egluro hyn, byddaf yn cyflwyno gwelliannau i adrannau 55, 58 a 62 o'r Bil i'w gwneud yn glir y bydd ymgynghori'n digwydd cyn cyflwyno rheoliadau dan yr adrannau hyn. Hefyd, byddaf yn cyflwyno gwelliant pellach i adran 55 i sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â BILl y bu iddo gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth gydag ef yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2014.

Mae **argymhellion 32 a 35** yn cyfeirio at sicrhau adnoddau a chymorth priodol ar gyfer awdurdodau lleol ac AGGCC i baratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ac ar gyfer y gyfundrefn trosolwg o'r farchnad ei hun. Rwy'n **derbyn** y ddau argymhelliad a hoffwn ailddatgan fy sylwadau wrth y Pwyllgor; mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer y Bil yn nodi'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer yr holl waith sy'n gysylltiedig â throsolwg o'r farchnad. Cafodd ei lunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. O ran **argymhelliad 34**, mae adran 58 yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n darparu hyblygrwydd pe cyfyd yr angen i newid y meini prawf ar gyfer y rhai y mae gofyn iddynt adrodd ar sefydlogrwydd y farchnad. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir mai awdurdodau lleol yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n dal i fod yn bennaf gyfrifol am sicrhau diwydrwydd dyladwy ar gyfer trefniadau cytundebol.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Rwy'n hapus i **dderbyn argymhelliad 36**. Rwy'n dawelach fy meddwl bod y Pwyllgor wedi canfod bod y mwyafrif o randdeiliaid o blaid swyddogaethau estynedig ar gyfer Gofal

Cymdeithasol Cymru ar y cyfan. Rwy’n credu bod cyfuno’r swyddogaethau rheoleiddio a gwella gwasanaethau’n ddull rhesymegol a blaengar a all arwain at ddysgu ar y cyd a rhoi gwerth ychwanegol. Cafodd y farn hon ei chefnogi hefyd mewn adroddiad a gynhyrchwyd i mi ei ystyried gan y Grŵp Llywio Gwella Strategol a ddarparodd gyngor ynghylch sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru.

Fodd bynnag, rwy’n ymwybodol o’r angen i sefydlu mesurau sydd wedi’u bwriadu i leihau unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig a allai godi o ganlyniad i gyfuno swyddogaethau. Yn bwysig, mae’r Bil ei hun yn sefydlu rôl statudol newydd ar gyfer y corff rheoleiddio fel Cofrestrydd, gan sicrhau bod atebolrwydd clir ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio Gofal Cymdeithasol Cymru. Rwyf hefyd wedi sefydlu Panel Cynghori ar Bontio i Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu cynllun pontio i mi ei ystyried erbyn mis Mawrth nesaf. Fel un o’i flaenoriaethau, rwyf wedi gofyn i’r panel ystyried yr opsiynau llywodraethu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn benodol archwilio ac argymell dull sydd wedi’i fwriadu i leihau unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae’r panel, sy’n cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o’r sector, wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr union fater pwysig yma felly nid wyf am achub y blaen ar unrhyw argymhellion y gallai’r panel eu gwneud o bosibl; fodd bynnag byddaf yn sicrhau bod Aelodau’n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp yma wrth iddo ddatblygu ei argymhellion.

Rwyf hefyd yn **derbyn argymhelliad 37** i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch pam mae angen ailfrandio Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae’r Panel Cynghori ar Bontio i Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn ystyried materion sy’n ymwneud â chyfathrebu a brandio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru a byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hyn fel rhan o’m hymrwymiad i hysbysu aelodau ynghylch cynnydd y gwaith hwnnw.

Yn y bôn, mae’r achos dros ailfrandio’n ymwneud â’r angen i gyfleu arwyddocâd y newid i Gofal Cymdeithasol Cymru ac amlygrwydd y swyddogaeth gwella gwasanaethau yn enwedig. Bydd gan y sefydliad gyfrifoldeb am ddangos arweinyddiaeth glir i sbarduno gwelliant ar draws y sector. Rwyf felly’n credu y bydd ychydig o waith ailfrandio’n angenrheidiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r datblygiad arwyddocaol hwn ac i sicrhau y gellir mynd ati’n llwyddiannus i sicrhau bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ganolog i’r newidiadau.

**<u>Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol</u>**

Rwyf wedi gwrando’n ofalus ar yr ystod o ddatganiadau a safbwyntiau gan randdeiliaid a’r Pwyllgor ar fater rheoleiddio’r gweithlu. Mae wedi bod yn drafodaeth gyfoethog ynghylch maes allweddol o fewn y Bil, o ystyried ei effaith uniongyrchol ar sicrwydd y cyhoedd. Mae’r Bil yn adeiladu ar y sylfeini o ran rheoleiddio’r gweithlu a osodwyd dros y 15 mlynedd ddiwethaf ac yn paratoi’r ffordd ymlaen ar gyfer dull sy’n parhau i gryfhau’r gweithlu a rhoi sicrwydd i’r cyhoedd yn y dyfodol.

Rwyf wedi dynodi fy mod o blaid cryfhau sicrwydd y cyhoedd o ran staff gofal cartref ac ar ben hynny, gweithwyr gofal preswyl i oedolion. Rwy’n ymrwymo i sefydlu trefn gofrestru ar gyfer y gweithlu gofal cartref yn ystod oes y Llywodraeth nesaf. Yn y ffordd yma rwyf felly’n derbyn yr egwyddor sy’n sail i **argymhelliad 38**. Fodd bynnag, nid yw’n ddichonadwy ei

gwneud yn ofynnol i'r gweithlu hwn gofrestru ar unwaith heb risg sylweddol i barhad gwasanaethau. Byddaf felly'n defnyddio'r tymor canolig i ddatblygu'r gweithlu, a'n dealltwriaeth ni amdano, i'w gwneud yn bosibl pontio'n effeithiol i drefn gofrestru ffurfiol maes o law. Byddaf yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau o'r fath i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth am y gweithlu, ei gefndir, cymwysterau, hyfforddiant a gwybodaeth bwysig arall. Gan ddefnyddio gofynion cofrestru'r corff rheoleiddio gwasanaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd gan ddinasyddion ddealltwriaeth ddigynsail am y staff sy'n darparu gofal yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn gwella sicrwydd y cyhoedd yn sylweddol. Ond bydd yn gyfle hefyd i wneud newid sylweddol o ran galluoedd a sgiliau'r gweithlu hwn. Byddaf yn defnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid, i flaenoriaethu datblygiad gweithwyr gofal cartref. Bydd rhaglen glir ac uchelgeisiol i gefnogi datblygiad gyrfa a sgiliau yn cael ei sefydlu, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i'r gweithlu gofal ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar fater gofalwyr maeth, roedd y papur gwyn yn codi cwestiwn ynglŷn â gofyniad posibl i gofrestru ac roedd yr ymatebion yn amwys, gan gydnabod y prosesau fetio cynhwysfawr sydd eisoes yn cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddatblygu dull cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu yng Nghymru, fel rhan o'n strategaeth ehangach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Y nod yw pennu cyfeiriad newydd ar gyfer gwasanaethau maethu, yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Bil hwn. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n **derbyn argymhelliad 39** i archwilio manteision posibl ymestyn y gofyniad bod yn rhaid cofrestru i ofalwyr maeth.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd yn **argymhelliad 40** fy mod yn ailystyried a yw'r Bil yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion rheoleiddio gweithlu'r dyfodol. Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn ac rwyf wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Bil yn cynnal egwyddorion allweddol rheoleiddio trylwyr dan arweiniad lleygwyr tra'i fod ar yr un pryd yn galluogi proses hyblyg trwy reoliadau ac yna rheolau a bennir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'n hollbwysig bod y Bil yn rhoi eglurder i'r sector o ran perthnasedd darpariaethau amrywiol i'r gwahanol elfennau o'r gweithlu. Argymhellodd y Pwyllgor fy mod yn sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn y Bil yn cyflawni hyn. Rwy'n **derbyn argymhelliad 41** ac rwyf wedi ystyried iaith y Bil unwaith eto. Rwyf o'r farn bod y Bil, trwy ddilyn dull sefydledig y Ddeddf Safonau Gofal, eisoes yn ddigon eglur o ran sut y mae'n gymwys i'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys sut y mae'n berthnasol i'r proffesiynau amrywiol sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr iddo. Rwy'n credu bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn deall y dull hwn ac y gallai newid o'r dull hwn achosi dryswch. Er mwyn darparu trefn ddiogelu ychwanegol rhag camddehongli'r Bil mewn unrhyw ffordd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych eto ar y Nodiadau Esboniadol i weld a ellir eu datblygu ymhellach i roi mwy o eglurder. Byddaf hefyd yn sicrhau bod y broses o weithredu'r Bil yn cael ei chefnogi gan ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a deunydd cyhoeddusrwydd i sicrhau bod gan bawb yr effeithir arnynt ddealltwriaeth eglur am ei oblygiadau.

Bydd gwaith rheoleiddio'n cael ei gryfhau hefyd gan gydweithrediad rhwng cyrff perthnasol a chyrff rheoleiddio i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei reoleiddio a'i ddatblygu mewn modd cyson ar draws sectorau ac awdurdodaethau. Rwyf felly'n **derbyn argymhelliad 42 mewn egwyddor**. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru ac AGGCC gydweithredu gyda'i gilydd a chyda'r awdurdodau perthnasol hynny a restrir yn adran 175.

Ceir hanes cryf o gydweithredu cadarnhaol rhwng cyrff rheoleiddio ledled y DU ac rydym wrthi'n trafod gyda Llywodraeth y DU i weld a ellir ffurfioli hyn ar wyneb y Bil.

Mae Rhan 7 o'r Bil yn darparu'r sail ar gyfer ychwanegiad pendant at y drefn ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu a fyddai'n dwyn goblygiadau amrywiol ar gyfer gweithwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd. O ystyried hyn, rwy'n **derbyn argymhelliad 43** y dylid ymgynghori'n llawn â'r sector a llunio asesiad effaith rheoleiddiol cyn gwneud y rheoliadau hyn. Rwy'n hapus i osod yr ymrwymiad hwn ar wyneb y Bil.

**<u>Cydweithredu a Gweithio ar y Cyd</u>**

O ran materion cydweithredu a gweithio ar y cyd, rwy'n croesawu'r gefnogaeth eang i'r darpariaethau hyn. Mae'r rhain yn rhannau newydd a phwysig, yn fy marn i, o'r Bil. Rwy'n nodi'r farn gyffredin ar draws rhanddeiliaid a'r Pwyllgor ei bod yn bwysig rhoi cymaint o gyfle â phosibl ar gyfer cydweithredu a gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac i'r gyfraith alluogi'r ymddygiadau hyn yn hytrach na chyfyngu arnynt. Mae'r Bil felly'n ceisio nodi mewn ffordd glir ac adeiladol y disgwyliad a'r pwerau ar gyfer cydweithredu o'r fath. Mae'n darparu dyletswyddau newydd pwerus ar gyrff rheoleiddio i rannu gwybodaeth pan fo risg i lesiant, darpariaeth yr oeddwn yn falch o weld ei bod yn cael ei chefnogi gan lawer o randdeiliaid gan gynnwys CLlIC ac ADSS Cymru.


Roedd y Pwyllgor a rhanddeiliaid yn iawn i godi'r mater ynglŷn â diffyg cyrff y tu allan i Gymru yn y rhestr o awdurdodau yn adran 175 o'r Bil. Fel y dywedais yn y Pwyllgor, fy mwriad pendant yw y bydd y rhestr hon yn cynnwys cyrff o'r fath pan fydd yn dod i rym, ond rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion a Llywodraeth y DU i ganfod y ffordd fwyaf priodol o gyflawni hyn. Yn **argymhelliad 44**, mae'r Pwyllgor yn gofyn imi nodi'r cyrff y tu allan i Gymru y byddwn yn bwriadu eu hychwanegu at y rhestr. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch y rhestr hon o gyrff ac ni fyddai'n briodol imi achub y blaen ar ganlyniad y trafodaethau hynny ar hyn o bryd trwy gynnwys rhestr o gyrff y tu allan i Gymru yn yr ymateb hwn felly **nid wyf yn gallu derbyn** yr argymhelliad hwn ar hyn o bryd.

Rwyf hefyd yn **derbyn argymhelliad 45**, er nad yw wastad yn bosibl gwarantu cydsyniad o'r fath, fel yn yr achos hwn, lle mae'n aml yn dibynnu ar ffactorau allanol a gweithredoedd sefydliadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Adroddodd y Pwyllgor hefyd ar ei ystyriaethau ynghylch integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn benodol y cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y cyrff rheoleiddio perthnasol – AGIC ac AGGCC. Fel y dywedodd y ddau gorff yma yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac fel y dywedais innau yn y sesiwn graffu, nid oes rhwystr deddfwriaethol i gydweithio o ystyried bod y swyddogaethau y maent ill dau yn eu cyflawni'n swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Yn **argymhelliad 46** mae'r Pwyllgor yn gofyn imi nodi sut y mae'r Bil yn darparu sail i weithio ar y cyd, a pha un a yw'r Bil yn ddigon hyblyg i ymateb i ganlyniadau'r papur gwyrdd ar Ansawdd y GIG yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd. Eto, rwy'n hapus i **dderbyn** yr argymhelliad hwn. Mae'r Bil yn nodi pwerau a dyletswyddau eglur ar gyrff rheoleiddio i rannu gwybodaeth, cydweithio a chydweithredu. Mae'n caniatáu i gyrff rheoleiddio gyflawni swyddogaethau, megis arolygiadau, ar y cyd ac mae'n caniatáu i gyrff rheoleiddio ddirprwyo swyddogaethau dan rai amgylchiadau. Yn adran 180 mae'n sefydlu dyletswydd newydd bwerus ar gyrff rheoleiddio o'r fath i rannu gwybodaeth lle y bo'n angenrheidiol neu'n fuddiol er mwyn diogelu llesiant unigolyn yng Nghymru.

O ran y dyfodol, mae’r Bil yn nodi swyddogaethau mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, ac nid strwythurau. Mae hyn yn golygu, os a/neu pan fydd y dirwedd reoleiddiol yn cael ei newid yn dilyn yr ymgynghoriad cyfredol, y bydd y swyddogaethau hyn yn parhau ac yn gymwys i’r systemau newydd. Pe bai’n ofynnol i rai o’r swyddogaethau rheoleiddiol hyn gael eu trosglwyddo i gorff heblaw Gweinidogion Cymru gellid cyflawni hyn trwy’r ddeddfwriaeth a fyddai’n ofynnol i wneud y newidiadau eraill.

# Atodiad A – Llinell Amser ar gyfer Gweithredu



## Atodiad B – Amseriadau Arfaethedig ar gyfer Deddfwriaeth yn Seiliedig ar y Llinell Amser ar gyfer Gweithredu

**Cyfres 1 (erbyn mis Ebrill 2017)**

| **Adran** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **2 (1)(h)** – Gwasanaethau Rheoleiddiedig | Rheoleiddio gwasanaethau ychwanegol: eiriolaeth. |
| **6(1)(d) a (2)** – Cais i Gofrestru fel darparwr gwasanaeth | Ffurf a chynnwys cais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig. |
| **9(2); 9(3)(a)(ii); 9(3)(b**) – Cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth | Ffurf, cynnwys a therfyn amser ar gyfer cais i amrywio cofrestriad fel darparwr gwasanaeth. |
| **19(6) –** Unigolion Cyfrifol | Yr amgylchiadau penodol lle gall unigolyn gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru. |
| **26(1)** – Rheoliadau ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig | Safonau a gofynion i'w gosod ar ddarparwyr gwasanaeth. |
| **27(1)** – Rheoliadau ynghylch unigolion cyfrifol | Dyletswyddau unigolion cyfrifol |
| **29(1)** – Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu. | Gofyniad i berson a benodir hysbysu Gweinidogion Cymru am y penodiad hwnnw |
| **30(1**) – Darparwyr gwasanaethau sydd wedi marw | Darpariaeth sy'n ymwneud â darparwr gwasanaeth sydd wedi marw. |
| **43 –** Methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau | Trosedd o ran methu cydymffurfio â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir o dan adran 26. |
| **44** – Methiant gan unigolyn cyfrifol i gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau | Trosedd o fethu cydymffurfio â rheoliadau a wneir dan adran 27 |
| **51(b) –** Hysbysiadau Cosb | Manylion cynllun hysbysiadau cosb benodedig |
| **78(2)(b)** – Ystyr "gweithiwr gofal cymdeithasol" | Mae'n darparu bod personau i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol. |
| **79 (1)(b)** – Y gofrestr | Cofrestr a gedwir gan GCC sy'n cynnwys rheolwyr, gweithwyr mewn cartrefi plant, myfyrwyr gwaith cymdeithasol |
| **90(1)(c) a (d)** – Cynnwys y gofrestr | Yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn cofnod yn y gofrestr. |
| **109(6)** – Rhestr o bersonau sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr | Ffurf a chynnwys y rhestr; cyhoeddi; amgylchiadau lle gellir tynnu cofnod oddi ar y rhestr. |

| | |
|---|---|
| **173(1)** – Achosion gerbron paneli | Achosion gerbron (a) paneli apelau cofrestru; (b) paneli gorchmynion interim; (c) paneli addasrwydd i ymarfer. |
| **172(5)(b)** – Dyletswydd i sefydlu paneli a.y.b. | Personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau o banel. |

**Cyfres 2 (erbyn mis Ebrill 2018)**

| **Adran** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| **8(2) ac 8 (3)** – Datganiad blynyddol | Ffurf, cynnwys a therfyn amser ar gyfer datganiad blynyddol gan ddarparwyr gwasanaethau. |
| **32/56(2)** - Arolygiadau o wasanaethau | Cod ymarfer ar y modd y caiff arolygiadau eu cynnal, gan gynnwys amlder yr arolygiadau. |
| **55** – Adran 144A o'r Ddeddf – Adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol | Ffurf a chynnwys adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol. |
| **55** – Adran 144B o'r Ddeddf – Adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol | Ffurf, amseriad a chynnwys adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol |
| **58(1); (4) –** Pennu meini prawf ar gyfer cymhwyso cyfundrefn trosolwg o'r farchnad | Y meini prawf ar gyfer dyfarnu a yw adran 60 yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth. |
| **60(6); (7) –** Asesu cynaliadwyedd ariannol darparwr gwasanaeth | Cael gwybodaeth briodol a chynnal asesiadau. |
| **62(1); (3) –** Adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol | Amseriad, cyhoeddi a chynnwys yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol. |
| **110(5)** – Defnyddio teitl "gweithiwr cymdeithasol" etc. | Sefydliadau y caniateir iddynt gynnal 'cofrestr berthnasol' – *yn amodol ar newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU.* |
| **118(4)(d)** – Ystyriaeth ragarweiniol | Personau na chaniateir iddynt gynnal ystyriaeth ragarweiniol – *yn amodol ar newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU.* |
| **124(5)(d)** – Dyletswydd i ymchwilio | Personau na chaniateir iddynt gynnal ymchwiliad – *yn amodol ar newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU.* |

**Adran 28** – Canllawiau ynghylch rheoliadau dan adrannau 26 a 27 i gael eu datblygu gan AGGCC unwaith y bydd y rheoliadau wedi cael eu datblygu.

**Bydd y rheoliadau sy'n weddill yn cael eu datblygu erbyn mis Ebrill 2019 neu yn ôl y galw.**